OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 394

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003

## RHAN 1

## ENWI, CYCHWYN, CYMHWYSO A DEHONGLI

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003 a byddant yn dod i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.** Yn y rheoliadau hyn:

"awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") yw'r corff sy'n cyhoeddi'r hysbysiad gorfodi perthnasol;

"y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

"y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

"y Ddeddf Gynllunio" ("*the Planning Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a

"hysbysiad gorfodi" ("*enforcement notice*") yw hysbysiad a gyhoeddir o dan adran 172(1)(**1**) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 38(1) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig.

(**1**) Amnewidiwyd adran 172(1) gan adran 5(1) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal Deddf 1991 (p.34).